Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yr ymweliad
# Lefel y dilyniant: Monitro gan Estyn

**Consortiwm Dysgu yn y Gwaith Canolbarth Cymru**
**Canolfan Rheidol**
**Rhodfa Padarn**
**Llanbadarn Fawr**
**Aberystwyth**
**Ceredigion**
**SY23 3UE**
**Y Deyrnas Unedig**

**Dyddiad yr ymweliad: Mehefin 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Bernard O'Reilly | Arolygydd Cofnodol |
| Alun Connick | Arolygydd Tîm |
| Steve Bell | Arolygydd Tîm |
| Jane Taylor | Arolygydd Tîm |

## Canlyniad yr ymweliad monitro

O ystyried y cynnydd araf a wnaed gan Gonsortiwm Dysgu yn y Gwaith Canolbarth Cymru wrth fynd i'r afael â'r argymhellion o adroddiad arolygu Estyn yn Hydref 2012, bydd angen i Estyn gynnal ymweliad monitro arall o fewn y 12 mis nesaf. Fodd bynnag, yn sgil y newidiadau sylweddol yn aelodaeth y consortiwm dros y misoedd nesaf, bydd ymweliad monitro undydd yn Hydref 2014 hefyd gan Arolygydd Cyswllt y consortiwm a'r Arolygydd Cofnodol ar gyfer yr ymweliad monitro hwn.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Gwella'r cyfraddau y mae dysgwyr yn cyflawni eu fframweithiau cymhwyster llawn arnynt

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Yn arolygiad Estyn yn Hydref 2012, defnyddiwyd data cyhoeddedig Llywodraeth Cymru ar ddeilliannau llwyddiannus ar gyfer dysgwyr yn y gwaith (DYYG) ar gyfer y cyfnod 2010-2011. Dangosodd hyn fod cyfradd lwyddo gyffredinol y consortiwm o ran y fframwaith prentisiaeth gryn dipyn islaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Ers hynny, bu gwelliant mewn cyfraddau llwyddo o'r sylfaen isel hon. Mae data cyhoeddedig ar gyfer cyfraddau llwyddo'r fframwaith prentisiaeth dros y ddwy flynedd diwethaf yn dangos bod Consortiwm Dysgu yn y Gwaith Canolbarth Cymru wedi symud i fod ychydig islaw'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae'r duedd dwy flynedd yn cuddio anghysondeb flwyddyn ar ôl blwyddyn, ac mae'r gyfradd cwblhau fframwaith yn nata cyhoeddedig y llynedd yn dangos gostyngiad pwyntiau canran o 2% o gymharu â chanran y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, roedd y cyfraddau cwblhau ar gyfer y ddwy flynedd, o'u cymryd yn unigol, ychydig islaw'r cyfartaledd cenedlaethol o hyd.

Mae'r data cyhoeddedig diweddaraf ar gyfer 2012-2013 yn dangos amrywiad sylweddol ym mherfformiad dysgwyr mewn gwahanol feysydd pwnc fel busnes a gweinyddu; adeiladu a gwaith coed; rheoli; a cherbydau modur.

Mae perfformiad partneriaid unigol o fewn y consortiwm yn amrywiol hefyd.

Mae'r duedd dwy flynedd yn y cyfraddau y mae dysgwyr yn mynd ymlaen i gyflogaeth neu hyfforddiant pellach arnynt o fewn rhaglenni â ffocws gwaith a hyfforddeiaeth yn anghyson. O ganlyniad, mae dysgwyr ar y rhaglenni hyn yn dangos cyfraddau llwyddo a dilyniannau cadarnhaol sy'n debyg i'r cyfartaledd cenedlaethol neu ychydig islaw.

Ers yr arolygiad yn 2012, mae grŵp llywio'r consortiwm wedi rhoi cyfrifoldeb am wella deilliannau ar gyfer yr holl ddysgwyr i'r Grŵp Rheoli Gweithredol a'r Grŵp Ansawdd. O ganlyniad, mae'r grwpiau hyn wedi rhoi nifer o ymyriadau ar waith, gan gynnwys:

- strategaeth ymyrraeth ar ymadawyr cynnar i wella deilliannau trwy leihau nifer yr ymadawyr cynnar; a

- rhannu data, gan ddefnyddio system Sharepoint y consortiwm fel bod yr holl ddarparwyr yn cofnodi eu gwybodaeth am berfformiad a chynnydd eu dysgwyr.

Mae data nas cyhoeddwyd y consortiwm ar gyfer y flwyddyn bresennol yn dangos rhagor o welliannau ar draws yr holl feysydd rhaglen.

Fodd bynnag, ni all y consortiwm nodi'n benodol pa gamau y mae wedi'u cymryd i wella deilliannau dysgwyr. Nid oes ganddo systemau i olrhain cynnydd dysgwyr nac effaith ei ymyriadau, ac mae'n dibynnu yn hytrach ar adborth gan ei bartneriaid i nodi tanberfformio. Hyd yn oed pan adroddir am danberfformio, nid oedd y consortiwm yn gallu nodi unrhyw gamau penodol i fynd i'r afael â hyn.

**Argymhelliad 2: Ymgorffori ac arfarnu strategaethau i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae gan y consortiwm strategaeth briodol ar lythrennedd a rhifedd. Mae hyn yn cynnwys gofyniad i asesu medrau dysgwyr ar ddechrau a diwedd eu rhaglen i fesur effaith y cymorth a roddwyd o ran medrau hanfodol. Fodd bynnag, er bod strategaeth briodol, ni chaiff ei rhoi ar waith yn effeithiol o ganlyniad i ddefnydd anghyson gan bartneriaid a defnydd gwael o ddata. Ni chaiff data a gynhyrchir o'r ymarfer hwn ei gasglu na'i ddadansoddi'n effeithiol i alluogi arweinwyr a rheolwyr i farnu pa mor effeithiol y mae'r cymorth a neilltuir yn helpu dysgwyr i wella'u medrau.

Mae gweithgor y consortiwm ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr yn golygu y gellir rhannu arfer dda ar draws y consortiwm. Mae wedi rhoi cynllun marcio cyffredin defnyddiol ar waith ac fe gaiff pob un o'r staff priodol hyfforddiant ar ddefnyddio'r cynllun. Fodd bynnag, nid yw rhai tiwtoriaid yn defnyddio'r cynllun yn effeithiol, felly maent yn colli camgymeriadau sillafu a gramadegol pwysig wrth farcio gwaith dysgwyr, neu mewn rhai achosion, maent yn marcio sillafu neu ramadeg anghywir yn gywir. O ganlyniad, nid yw dysgwyr yn dysgu oddi wrth eu camgymeriadau.

Mae llawer o ddysgwyr, a arsylwyd mewn sesiynau ac yn eu gwaith, yn dangos medrau llythrennedd a chyfathrebu llafar da. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o bortffolios dysgwyr, ceir enghreifftiau o sillafu neu ramadeg gwael. Mewn rhai achosion, nid yw safonau llythrennedd dysgwyr yn gwella dros gyfnod. Pan fydd angen i ddysgwyr wneud gwelliannau yn eu llythrennedd a'u rhifedd, ychydig o diwtoriaid yn unig sy'n gosod targedau sy'n ddigon penodol. Ceir enghreifftiau da o diwtoriaid yn annog dysgwyr i ddatblygu eu medrau mewn rhifedd, ond nid yw'r agwedd hon ar y gwaith wedi'i datblygu'n llawn ar draws y consortiwm o hyd. Fodd bynnag, nid yw'r ffocws ar gymhwyso rhif yn ddigon clir ac nid oes ffordd o olrhain cynnydd dysgwyr yn y maes hwn.

Mae gan yr holl bartneriaid ddarpariaeth briodol ar gyfer cymorth medrau sylfaenol. Fodd bynnag, ni chaiff y ddarpariaeth hon ei harfarnu ar lefel y consortiwm. Caiff pob un o'r dysgwyr yn y gweithle gymorth i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd gan eu tiwtoriaid/haseswyr. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o diwtoriaid yn ddigon hyderus yn y ffordd y maen nhw eu hunain yn cyflwyno'r cymorth hwn.

Er bod y cynllun datblygu ansawdd ar gyfer y consortia yn cynnwys amcan i diwtoriaid asesu llythrennedd a rhifedd ac un arall i wella gosod targedau ar gyfer llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), nid yw'n glir sut bydd y consortiwm yn mesur effaith yr amcanion hyn ar ddysgwyr.

**Argymhelliad 3: Codi safonau addysgu, hyfforddi ac asesu ar draws y consortiwm**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

At ei gilydd, gwneir cynnydd da i godi safon yr addysgu, hyfforddi ac asesu. Mae'r holl bartneriaid wedi hyfforddi eu staff mewn medrau asesu cymheiriaid erbyn hyn, ond caiff arsylwadau cymheiriaid a monitro safonau addysgu a dysgu eu monitro mewn ffordd anghyson. Maent wedi ymgymryd â hyfforddiant pellach hefyd sy'n cynnwys holl bartneriaid y consortiwm i godi safon yr addysgu. Caiff y rhan fwyaf o staff asesiadau rheolaidd, ac fe gaiff staff adborth clir ar ba mor dda y maent yn perfformio.

Nid yw lleiafrif o diwtoriaid/aseswyr yn y gwaith yn cael barnau crynodol clir gan eu rheolwr llinell sy'n dweud wrthynt p'un a ydynt yn perfformio ar lefel foddhaol neu well, er eu bod i gyd yn cael arweiniad ar feysydd i'w gwella.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn cynllunio sesiynau'n dda ac yn rhoi ystyriaeth dda i ystod lefelau gallu dysgwyr trwy amrywio eu harddulliau addysgu mewn sesiynau yn unol â hynny. Gwnânt ddefnydd da o enghreifftiau ymarferol i esbonio theori a helpu dysgwyr i ddatblygu medrau a defnyddio adnoddau priodol, ac mae rhai ohonynt yn datblygu adnoddau arloesol sy'n gwella dysgu. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn olrhain cynnydd dysgwyr yn dda ym mhob sesiwn addysgu a hyfforddi ac yn rhoi cymorth da i ddysgwyr i sicrhau eu bod i gyd yn gwneud cynnydd da mewn sesiynau.

Mae'r holl diwtoriaid yn y gweithle yn cynnal adolygiadau rheolaidd o ddysgwyr, ac yn cofnodi deilliannau'r adolygiadau hyn yn dda. Fodd bynnag, ceir anghysondebau ymhlith rhai aseswyr wrth iddynt farcio gwaith dysgwyr ac wrth roi adborth effeithiol i ddysgwyr i sicrhau eu bod yn deall pa mor dda y maent yn dod yn eu blaenau. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn gosod targedau priodol ar gyfer dysgwyr. Maent yn cynorthwyo dysgwyr yn dda, gan gynnig cymorth ac arweiniad perthnasol pan fydd dysgwyr yn wynebu anawsterau.

Pan fydd dysgwyr yn siarad Cymraeg, mae tiwtoriaid yn eu hannog i wneud defnydd da o'r Gymraeg mewn asesiadau neu adolygiadau. Ceir rhai enghreifftiau da o diwtoriaid yn annog dysgwyr di-Gymraeg i ddatblygu medrau iaith. Mae llawer o diwtoriaid yn teimlo'n hyderus mewn datblygu dealltwriaeth dysgwyr o Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang (ADCDF). Mewn rhai achosion, er enghraifft mewn ffarieraeth, mae gan ddysgwyr ddealltwriaeth dda o werth masnachol defnydd lluosog o adnoddau. Mae rhai tiwtoriaid wedi datblygu adnoddau da i wella ymwybyddiaeth dysgwyr o ADCDF.

**Argymhelliad 4: Gwella'r arfer o gasglu a defnyddio data i ddadansoddi elfennau allweddol o'r ddarpariaeth yn effeithiol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r consortiwm wedi gwella'i arfer o gasglu a defnyddio data yn sylweddol i wella perfformiad dysgwyr. Mae mecanweithiau monitro ac arfarnu mwy effeithiol ar waith erbyn hyn, ond mewn llawer o achosion, mae'n rhy gynnar i farnu eu heffaith ar ddysgwyr.

Mae'r consortiwm wedi sefydlu porth gwybodaeth defnyddiol ar y cyd ar y we ar gyfer yr holl bartneriaid. Mae hyn yn awr yn cynnwys rhannu data perfformiad y timau partner. Mae'r consortiwm wedi gwella'r ffordd y caiff data ei ddadansoddi, ac mae ei ragamcaniadau o berfformiad wedi'u seilio ar gyfarfodydd misol gyda phob partner erbyn hyn.

Mae'r ffaith fod gwybodaeth a data am y rhesymau pam mae dysgwyr yn gadael eu rhaglenni'n gynnar yn cael eu cofnodi a'u dadansoddi'n well wedi arwain at newid prosesau recriwtio, ymsefydlu a chymorth y consortiwm. Er enghraifft: caiff dysgwyr sydd mewn perygl o beidio â chwblhau eu rhaglen hysbysiad 'achos pryder', y mae partner yn ei gwblhau, sy'n sbarduno monitro a chymorth ychwanegol; ac mae'n ofynnol i ddysgwyr mewn meysydd galwedigaethol sydd â chyfraddau uchel o drosiant swyddi (er enghraifft gofal plant) fod wedi bod yn eu rôl swydd am dri mis cyn cofrestru ar raglen hyfforddi. Mae'r grŵp Monitro Ansawdd yn monitro effaith y newidiadau hyn ar ddysgwyr yn agos. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i feintoli effaith y newidiadau diweddar hyn ar brosesau recriwtio, ymsefydlu a chymorth y consortiwm yn llawn.

Mae'r consortiwm yn ymgymryd ag ystod dda o weithgareddau i gasglu data ar safbwyntiau dysgwyr. Mae'r rhain yn cynnwys arolygon electronig a phapur, fforymau dysgwyr a grwpiau ffocws, yn ogystal ag arolwg Llais y Dysgwr. Mae'r Grŵp Ansawdd yn defnyddio'r wybodaeth o'r ffynonellau hyn yn dda i wella'i ddarpariaeth.

Caiff perfformiad ariannol ei rannu trwy safle SharePoint y consortiwm. Mae'n llywio trafodaethau ynghylch trosglwyddo arian a gynhelir yn y Grŵp Llywio a'r Grŵp Rheoli Gweithredol (OMG). Mae hyn yn cynnwys dadansoddi incwm a gwariant yn fanwl yn erbyn targedau ar gyfer yr holl bartneriaid.

## Argymhelliad 5: Datblygu a gweithredu cynllun strategol cynhwysfawr ar gyfer y consortiwm

Nid aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn.

Nid yw'r consortiwm wedi datblygu cynllun strategol yn unol ag argymhelliad yr arolygiad. Mae'r cynllun a oedd yn bodoli adeg yr arolygiad yn parhau i fod bron yn union yr un fath, ac mae'n parhau i fod yn gyfredol. Ym Medi 2013, gwnaeth y consortiwm fân newid i'r cynllun i gynnwys cyfeiriad at arolygiad Estyn. Rhoddodd hyn gyfrifoldeb i'w Grŵp Rheoli Gweithredol fwrw ymlaen â'r argymhellion o'r adroddiad arolygu. Fodd bynnag, nid yw'r cynllun yn gwneud unrhyw gyfeiriad arall at ddeilliannau'r arolygiad.

At ei gilydd, mae'r cynllun strategol drafft yn annelwig ac nid yw'n cynnwys unrhyw gydnabyddiaeth na dealltwriaeth glir o safbwyntiau rhanddeiliaid eraill yn y maes i helpu'r consortiwm i ffurfio'i gyfeiriad strategol. O ganlyniad, mae gweledigaeth a nodau strategol trosfwaol y consortiwm yn aneglur. Mae'r amcanion yn fwy

gweithredol na strategol a byddent yn ymddangos yn fwy perthnasol i waith y Grŵp Rheoli Gweithredol.

Yn unol â'r hyn sy'n cael ei gyflwyno ynddo ar hyn o bryd, ni fydd y cynllun yn helpu'r consortiwm i arfarnu'r effaith y gallai ei chael yn yr ardal leol.

Ar hyn o bryd, mae'r consortiwm yn mynd trwy gyfnod o newid, sydd wedi golygu rhywfaint o ansicrwydd ynghylch aelodaeth y consortiwm yn y dyfodol. Fodd bynnag, ni ddylai hyn ynddo'i hun fod wedi cyfrannu at yr oedi sylweddol wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 6: Sicrhau bod systemau a gweithdrefnau ansawdd yn cael eu hymgorffori a'u defnyddio'n gyson ar draws y consortiwm**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Ers yr arolygiad yn 2012, mae'r partneriaid yn y consortiwm wedi parhau i weithio gyda'i gilydd i geisio sicrhau bod systemau a gweithdrefnau ansawdd yn cael eu hymgorffori a'u cymhwyso'n gyson ar draws y consortiwm. Mae Grŵp Ansawdd y consortiwm, sy'n adrodd i'r Grŵp Rheoli Gweithredol, yn gyfrifol am fwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

Fodd bynnag, mae adroddiad hunanasesu'r darparwr ar gynnydd yn erbyn argymhelliad Estyn ar gyfer gwella ansawdd yn disgrifio proses yn unig, ac nid oes llawer o dystiolaeth o flaenoriaeth ar gyfer gwella systemau ansawdd ers yr arolygiad. Prin yw'r dystiolaeth o'r camau a gymerwyd ac effaith y camau hynny ar berfformiad cyffredinol y consortiwm.

Gwnaed rhai gwelliannau, gan gynnwys ystod briodol o bolisïau a gweithdrefnau safonedig ar draws y consortiwm ar gyfer meysydd allweddol, fel diogelu, iechyd a diogelwch a chwynion, a llawlyfr cyffredin defnyddiol ar gyfer y dysgwyr. Mae'r rhain ar gael yn rhwydd i staff a dysgwyr ar safle Moodle y consortiwm.

Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw'r Grŵp Rheoli Gweithredol a'r grŵp llywio yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau'n ddigon da o ran materion ansawdd, gan gynnwys mynd i'r afael â'r argymhellion o'r adroddiad arolygu diwethaf. Mae'r diffyg clir hwn o ran cyfeiriad ac atebolrwydd yn golygu bod cynnydd mewn gwella ansawdd a safonau yn rhy araf ac yn amrywio gormod ar draws y partneriaid, er enghraifft anghysondeb wrth gyflwyno arsylwadau cymheiriaid, monitro safonau addysgu a dysgu, a monitro rhoi arferion cytûn ar waith ar gyfer llythrennedd a rhifedd. O ganlyniad i hyn, mae gwelliannau'n rhy araf ac mae llawer o'r materion a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol yn parhau.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal a gwella ar y cynnydd hwn, dylai'r darparwr barhau i weithio tuag at fodloni argymhellion yr arolygiad nad aethpwyd i'r afael â nhw'n llawn eto.